O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 691 (Cy. 83)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefncoedycymer i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | *4 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Cefncoedycymer i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2013.

**2.** —1. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4

Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 rhwng Cylchfan Cefncoedycymer a Chylchfan Dowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel y'u pennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2013(3) wedi eu hatal dros dro drwy hyn mewn perthynas â'r darn o'r briffordd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 ar waith.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Chwefror 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** OS.2013/405 (Cy49)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cefncoedycymer i'w chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Dowlais Top.

Y darn hwnnw o Ffordd Ymuno Tua'r Gorllewin Cyfnewidfa'r Pant sy'n ymestyn o'i chyffordd â Rocky Road i'w thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin.

Y darn hwnnw o Ffordd Ymuno Tua'r Dwyrain Cyfnewidfa'r Pant sy'n ymestyn o'i chyffordd ag Ystad Ddiwydiannol Merthyr Tudful i'w thrwyniad ffiesgol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain.

Y darn hwnnw o Ffordd Ymuno Tua'r Dwyrain Cefncoedycymer (Grawen Lane) sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau o'i thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain i'w thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain.

Y darn hwnnw o Ffordd Ymuno Tua'r Gorllewin Cefncoedycymer (Lower Vaynor Road) sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau o'i thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin i'w thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cefncoedycymer i'w chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Dowlais Top.